**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20fed Rhagfyr 2010**

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

**Adroddiad gan y Cynghorydd Sharon Frobisher**
**Cadeirydd yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd Cadeirydd yr Awdurdod yn rhinwedd ei swydd rhwng y 9fed Hydref a'r 10fed o Ragfyr 2010.

## Gwybodaeth

2 Rhestrir isod y digwyddiadau a'r cyfarfodydd a fynychodd y Cadeirydd:

| | |
|---|---|
| 20fed Hydref | Cyflwyno sieciau i elusennau lleol yn dilyn arddangosfa tân gwyllt, Gorsaf Dân Prestatyn |
| 22ain Hydref | Seremoni y Ffenics, Amlwch |
| 9fed Tachwedd | Cyfarfod gyda'r Gweinidog |
| 12fed Tachwedd | Tynnu Raffl Elusen y Diffoddwyr Tân<br>Cyfarfod gyda'r Undebau cyn y Panel Gweithredol |
| 15fed Tachwedd | Cyfarfod Panel Gweithredol |
| 19eg Tachwedd | Seremoni y Ffenics, Yr Wyddgrug |
| 22ain Tachwedd | Cyfarfod Gweithgor Datblygu'r Gyllideb |
| 26ain Tachwedd | Seremoni y Ffenics, Yr Wyddgrug |
| 30ain Tachwedd | Seremoni Gwobrau am Wasanaeth Hir |
| 3ydd Rhagfyr | Cyfarfod Gweithgor Datblygu'r Gyllideb |
| 9fed Rhagfyr | Mynychu lansiad Strategaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer plant a phobl ifanc yng Ngorsaf Dân Prestatyn. Y Gweinidog yn bresennol. |

3 Yn y cyfarfod gyda'r Gweinidog ar y 9fed o Dachwedd, trafodwyd y materion canlynol: Cynllunio i Leihau Risg; Adolygiad Gwariant; Estyniad o'r Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a Chynlluniau Parhad Busnes.

4 Mynychodd y Gweinidog agoriad swyddogol Gorsaf Dân Llangefni ar ei newydd wedd. Roedd y Cynghorydd J V Owen yn bresennol ar ran y Cadeirydd.

5 Ymwelodd y Gweinidog â Gorsaf Dân Prestatyn yn ddiweddar hefyd. Roedd yno i lansio Strategaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Fel rhan o'r digwyddiad, bu cadetiaid o'r Gymdeithas Diffoddwyr Tân yn arddangos eu sgiliau ac amlygwyd cyflawniadau'r Gymdeithas i'r Gweinidog.

6 Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Swyddog Tân, Cadeirydd a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ar 12fed Hydref a 12fed Tachwedd.

**Argymhelliad**

7 Fod Aelodau'n nodi'r wybodaeth uchod.